Datgelu gwybodaeth dramor

Papur ymgynghori

Ebrill 2003

Rhan o gyfres o bapurau ymgynghori ynglŷn â sut y bydd darpariaethau Deddf Fenter 2002 yn gweithio yn ymarferol

OFT 507

1 CYFLWYNIAD

Ynglŷn â'r ddogfen hon

1.1 Mae Deddf Fenter 2002 ('y Ddeddf') yn diddymu'r rheolaethau presennol ar ddatgelu gwybodaeth mewn deddfwriaeth gystadleuaeth a deddfwriaeth diogelu defnyddwyr fel y rhai yn Neddf Masnachu Teg 1973, Deddf Credyd Defnyddwyr 1974, a Deddf Gystadleuaeth 1998[1]. Mae'n cyflwyno system unedig newydd i reoli datgelu gwybodaeth o'r fath gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU ac felly mae'n gymwys i bob un o swyddogaethau'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT).

1.2 Mae'r drafft ymgynghori hwn yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y mae'r OFT yn bwriadu dehongli'r darpariaethau newydd sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus tramor. Mae'n nodi'r ffordd y bydd yr OFT yn mynd ati i benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth o'r fath i awdurdod cyhoeddus tramor (OPA). Yn benodol, mae'n esbonio sut y bydd yr OFT yn rhoi sylw i'r ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys yn a.243(6) o'r Ddeddf.

1.3 Pan fo'n berthnasol, mae'n crynhoi hefyd y pwerau a'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 9 o'r Ddeddf, sy'n gymwys i ddatgelu gwybodaeth o fewn y Deyrnas Unedig. Mae llifsiart yn atodiad A yn rhoi arweiniad i'r ffordd y mae Rhan 9 yn gweithio yn gyffredinol.[2]

Pam mae'r darpariaethau hyn yn bodoli?

1.4 Mae cyfrifoldebau'r OFT dros orfodi yn gymwys, yn bennaf, o fewn y DU. Serch hynny, pan fydd effaith andwyol ar ddefnyddwyr y DU, mae gan yr OFT awdurdod hefyd i weithredu mewn awdurdodaethau eraill mewn perthynas â chyfreithiau penodol ar ddiogelu defnyddwyr. Yn yr un modd, gall awdurdodau cyffelyb i'r OFT o wledydd eraill o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd weithredu o flaen llysoedd y DU o dan rannau penodol o'r Ddeddf Fenter i ddiogelu **eu** defnyddwyr **hwy**.

---

[1] Gweler a247 o'r Ddeddf sydd wedi'i hatgynhyrchu yn atodiad B.

[2] Sylwch mai unig ddiben y llifsiart hon yw bod yn arweiniad i'r darpariaethau. I weld y darpariaethau awdurdodol ar ba bryd y caniateir datgelu gwybodaeth benodedig, mae'n angenrheidiol cyfeirio at Ran 9 o'r Ddeddf ei hun, sydd wedi'i hatgynhyrchu yn atodiad B er hwylustod (ac a oedd yn gywir adeg ei hargraffu). Nid yw rhai rannau perthnasol eraill o'r Ddeddf (gan gynnwys Atodlenni 14 a 15) wedi'u hatgynhyrchu fan hyn, ond gellir dod o hyd iddynt ar wefan Gwasg Ei Mawrhydi: http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2002.htm.

1.5 Ymhellach, mae masnach drawsffiniol yn dod yn rhan fwy arwyddocaol byth o'r byd modern. Am y rhesymau hyn, mae cydweithredu rhwng asiantaethau gorfodi yn fwyfwy angenrheidiol: er enghraifft i ddiogelu defnyddwyr rhag arferion masnachu annheg sy'n cael eu defnyddio dramor, ac i ymladd cartelau sy'n croesi ffiniau rhyngwladol.

1.6 Rhinwedd cydweithrediad o'r fath hefyd yw atal camau gorfodi lluosog mewn perthynas â'r un broblem ganfyddedig.

1.7 Yn unol â hynny mae gan yr OFT bwerau i rannu gwybodaeth ag awdurdodau cyhoeddus tramor eraill ac mae'n cael gwybodaeth hefyd oddi tramor sy'n ei helpu gyda'i gwaith gorfodi yn y DU.

1.8 Er hynny, wrth ddatgelu gwybodaeth i OPAau, rhaid i'r OFT sicrhau bod cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol a phersonol yn gael ei gadw, ac nad yw terfynau datgelu gwybodaeth (pan fo'n cael ei ganiatáu) yn ehangach na'r hyn sy'n angenrheidiol i gymryd camau gorfodi effeithiol. Mae'r adrannau isod yn esbonio'r cyfyngiadau cyfreithiol ar ddatgelu a sut y byddai'r OFT yn penderfynu yn ymarferol pryd y dylid datgelu gwybodaeth ac a ddylid gwneud hynny.